



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG47113

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Gweithredu HIV i Gymru (2022)

Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawffraint y Goron 2023 ISBN ddigiol 978-1-80535-566-3

Trosolwg

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, ac a adnewyddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn amlinellu nifer o ymrwymadau sydd â'r nod o ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel. Un o'r ymrwymadau allweddol o dan y pennawd hwn yw datblygu cynllun gweithredu HIV a mynd i'r afael â'r stigma a brofir gan y rhai sy'n byw gyda HIV. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu HIV drafft rhwng 14 Mehefin 2022 a 14 Medi 2022. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Camau i'w cymryd

Dogfen ar gyfer gwybodaeth yn unig yw'r ddogfen hon.

Manylion cyswllt

Polisiâu Diogelu Iechyd a Rhaglenni Blaenoriaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Healthprotection@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyflwyniad

Mae ein *Rhaglen Lywodraethu* yn cyflwyno ymrwymadau uchelgeisiol i ddatblygu *Cynllun Gweithredu HIV i Gymru* ac i fynd i'r afael â'r stigma a brofir gan y rhai sy'n byw gyda HIV.

Yn hydref 2021, sefydlwyd Gweithgor Cynllun Gweithredu HIV gennym dan gadeiryddiaeth Dr Marion Lyons, Uwch Swyddog Meddygol yn Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â phrofiadau cymunedol, proffesiynol, academaidd ac, yn bwysig iawn, profiad personol. Yr egwyddorion arweiniol a oedd yn sail i waith y Grŵp oedd na ddylid gadael neb ar ôl, y dylid annog a dathlu cynwysoldeb ac amrywiaeth ac y dylai'r **holl** gymunedau a wasanaethir gennym fod Yn rhan annatod o'r ddeialog, y drafodaeth a'r penderfyniadau a wneir ar HIV wrth symud ymlaen.

Ymgynghoriad

Roedd y Cynllun Gweithredu HIV drafft i Gymru yn cynnwys blaenoriaethau clir a champau gweithredu wedi'u targedu sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau hyn. Nod yr ymgynghoriad hwn oedd ein helpu i ganfod ai dyma'r blaenoriaethau a'r camau cywir i ganolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni ein hamcanion. Roedd 5 cwestiwn i'w hystyried, ond roeddem yn croesawu cyfraniadau cyffredinol hefyd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy sesiwn ymgynghori/wybodaeth ar-lein i roi trosolwg o'r Cynllun Gweithredu drafft, ei nodau a'i ddull gweithredu arfaethedig ar gyfer sefydliadau a'r aelodau hynny o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y maes hwn. Hefyd, cynhaliodd menter Fast Track Cities Caerdydd a'r Fro gyfarfod cyhoeddus gyda nifer dda'n bresennol i drafod y Cynllun Gweithredu HIV.

Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad

Cawsom 55 ymateb i'r prif ymgynghoriad. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd, yn enwedig yr unigolion hynny sy'n byw gyda HIV.

Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â byrddau iechyd, sefydliadau sy'n gweithio gydag unigolion sy'n byw gyda HIV ac, yn bwysig, pobl sy'n byw gyda HIV.

Prif negeseuon

Ymddangosodd nifer o themâu yn yr ymatebion i fwy nag un o gwestiynau'r ymgynghoriad, ac o ganlyniad i'r rhain, mae'r prif newidiadau i'r cynllun drafft gwreiddiol fel a ganlyn:

- Amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r camau allweddol wedi'u hychwanegu at y cynllun lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae ymrwymiad wedi'i ychwanegu y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad blynyddol i'r Senedd ar y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun.
- Mwy o bwyslais ar y rôl y bydd yn rhaid i ofal sylfaenol ei chael yng nghwrs bywyd HIV; bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth i fentrau atal, normaleiddio profion HIV, cefnogi'r ddarpariaeth o Broffylacsis Cyn-gysylltiad (PrEP) a bod yn rhan o'r ymateb amlddisgyblaethol i'r rhai sy'n heneiddio ac sydd â mathau eraill o salwch.
- Cam gweithredu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ddangos tystiolaeth bod plant a phobl ifanc sy'n byw gyda HIV yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol, a bod y broses o bontio i wasanaethau oedolion yn un ddi-dor.
- Cam gweithredu newydd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl â HIV bellach yn byw'n hirach, a byddant, fel gyda phob poblogaeth sy'n heneiddio, yn datblygu cydafiacheddau ac mae'n hanfodol bod eu gofal yn cael ei gyflynu, gyda thîm amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd.
- Cam gweithredu newydd sy'n datgan y caiff y sail dystiolaeth a'r ymchwil gyfredol a wneir ym maes iechyd rhywiol a HIV ei hoptimeiddio a'i goruchwyllo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwil o brifysgolion Cymru.
- Mae camau gweithredu ar stigma wedi'u cryfhau, yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau cartrefi gofal ac ysgolion.

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried ac wedi llywio fersiwn derfynol Cynllun Gweithredu HIV i Gymru. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Nid yw'n bwriadu crynhoi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Mae'n cyflwyno'r prif themâu a materion sy'n codi'n gyson.

Ni wnaeth pob ymatebwr ateb pob cwestiwn. Roedd rhai ymatebwyr a atebodd yn rhoi ymatebion cyffredinol yn hytrach nag ateb y cwestiynau penodol. Lle mae hyn yn wir, mae'r ymateb wedi'i gynnwys o dan y cwestiwn mwyaf priodol.

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno gyda'r pum cam gweithredu cyffredinol a nodir yn y cynllun hwn? A oes camau cyffredinol eraill y dylid eu cynnwys?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r camau gweithredu cyffredinol, er bod rhai sylwadau penodol yn ymwneud â rhai camau gweithredu a phwyntiau ychwanegol i'w hystyried.

Dyma rai o'r themâu cyffredin:

Cefnogaeth gref i'r system Rheoli Achosion. Consensws gan lawer o'r ymatebwyr y byddai hyn yn gaffaeliad mawr wrth gyflawni llawer o gamau gweithredu'r Cynllun. Awgrymiadau i gysylltu â phorth clinigol Cymru i leihau gwallau sy'n gysylltiedig â mewnbynnu canlyniadau profion â llaw. Sylwadau y dylai'r system gynnwys plant, ond yn gyffredinol roedd cytundeb ysgubol y byddai hwn yn gam pwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau presennol y mae Cymru'n eu profi gyda data.

O ran gofyn i fyrddau ac ymddiriedolaethau adrodd ar y broses o roi camau gweithredu'r cynllun ar waith, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru rannu'r cyfrifoldeb a monitro.. Cafwyd awgrymiadau y byddai byrddau iechyd yn elwa ar ganllawiau addas gydag amserlenni er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei hadrodd yn gywir a'i bod yn gyson. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gofyn am gynnwys mesurau canlyniadau neu ddangosyddion perfformiad allweddol i helpu i fonitro'r broses o weithredu'r cynllun a llwyddiant y cynllun.

Roedd awgrym y dylid cynnwys aelodaeth y Grŵp Goruchwylio yn y cynllun gyda'r aelodau'n dod o amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau buddiant gan gynnwys iechyd menywod, mamolaeth a Sgrinio Cyn Geni Cymru a chynrychiolwyr grwpiau plant. Byddai hyn yn sicrhau llais cryf i blant, menywod a gwasanaethau mamolaeth nad oeddent yn amlwg yn y cynllun drafft. Hefyd consensws cryf, fel gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bod pobl sy'n byw gyda HIV yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Goruchwylio.

Roedd awgrymiadau y gellid ychwanegu ymchwil fel cam gweithredu yn y cynllun ac y gallai cryfhau gwaith ymchwil a gwaith casglu data lywio ac amlygu meysydd i'w datblygu, newidiadau mewn demograffeg, agweddau a datgelu a yw stigma'n cael ei leihau.

Nodwyd amrywiaeth o bwyntiau ac awgrymiadau eraill fel ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

Roedd gwneud profion yn rhan annatod o ofal sylfaenol yn flaenoriaeth.

Dylid cynnwys darpariaeth gofal a thriniaeth feddygol amlddisgyblaethol i blant, gan gynnwys gwasanaethau pontio i bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc sy'n cysylltu pediatreg ac iechyd rhywiol.

Darparu triniaeth sy'n atal HIV rhag trosglwyddo o'r fam i'r plentyn ar gyfer pob menyw feichiog sy'n cael prawf HIV positif.

Dylid sicrhau bod rhagor o wybodaeth am HIV yng nghwricwlwm yr ysgol.

O ran stigma HIV, roedd sawl sylw y byddai mesur cynnydd yn heriol. Roedd awgrym y byddai'n ddefnyddiol datblygu dangosyddion sy'n casglu'r sbardunau ar lefel unigolion y tu mewn a'r tu allan i leoliadau gofal iechyd. Gallai'r rhain gynnwys ofn haint, rhagfarn, bai a beirniadaeth gymdeithasol, a sbardunau ar lefel sefydliadau fel normau cymdeithasol/diwylliannol, polisïau ac arferion.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn poeni am adnoddau, gweithlu a chyllid byrddau iechyd i gyflawni'r camau gweithredu cyffredinol hyn a'r camau gweithredu ehangach sydd yn y cynllun.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o gamau gweithredu a gynigir? A oes unrhyw rai y byddech yn eu hychwanegu neu eu tynnu o'r 26 a nodwyd ar hyn o bryd?

Roedd cefnogaeth ysgubol i'r rhestr o gamau gweithredu. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd mynediad at PrEP mewn gofal sylfaenol yn ogystal â chlinigau iechyd rhywiol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i gleifion mewn ardaloedd gwledig a'r rhai mewn grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol. Awgrymodd llawer hefyd fod angen amserlen ar y cam gweithred hwn yn benodol.

Dyma rai o'r awgrymiadau eraill:

Dylai fod yna ymrwymiad pendant na ddylai unrhyw un adael clinig iechyd rhywiol heb brawf HIV.

Dylai'r astudiaeth serogyffredinrwydd a gynigir ar gyfer HIV a firysau a gludir yn y gwaed fod yn gam gweithredu penodol.

Roedd y cyfeiriad hwnnw at hysbysu partneriaid a system canfod ac olrhain ar goll o'r adran profion.

Dylid sicrhau bod y cynllun yn cyfeirio mwy at, ac yn canolbwyntio mwy ar, y rhai sy'n heneiddio gyda HIV a'r rhai sydd â chydafiacheddau a mynediad at wasanaethau eraill y GIG a gofal cymdeithasol. Dywedodd sawl ymatebwr y dylid cael cam gweithredu penodol ar gyfer pobl sy'n heneiddio (dros 50) sy'n byw gyda HIV.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn wylidwrus ynghylch sut gall rheolau hen ffasiwn effeithio'n negyddol ar y rhai sy'n byw gyda HIV, a gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn llywio polisïau a darparwyr gwasanaethau.

Nid oedd unrhyw gyfeiriad at wahaniaethu ffurfiol yn yr adran stigma.

Roedd cefnogaeth gref a chyson i'r profion ar-lein sy'n parhau i annog mwy o bobl i brofi'n fwy rheolaidd.

Dylai fod gwell hyfforddiant HIV ar gyfer meddygon teulu, nyrsys iechyd meddwl a seiciatryddion yn gyffredinol ac yn benodol i fynd i'r afael â stigma ynghylch pobl sy'n cymryd PrEP.

Roedd ymholiad ynglŷn â pham ddylai byrddau iechyd gynnal cyfarfodydd blynyddol i drafod diagnosisu hwyr a'i bod yn well dysgu gwersi yn gynt ar ôl y digwyddiad, ac yna gweithredu'n brydlon os oedd angen.

System rheoli achosion. Fel y crybwyllwyd yn y dadansoddiad i Gwestiwn 1, cafwyd cefnogaeth gref ac ysgubol i'r system hon a'r effaith y byddai'n ei chael ar gyflawni nodau'r cynllun hwn, a tharged 2030 cyffredinol WHO. Dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod yn bwysig bod system o'r fath yn gallu cysylltu â setiau data iechyd eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o epidemioleg heintiau HIV.

Roedd angen sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at wasanaethau a'u bod yn ymwybodol ohonynt.

Cafwyd sylw ar bwysigrwydd sicrhau bod strategaethau profi HIV yn cynnwys profion ar gyfer plant ac ieuenctid, ac y dylai Cymru gael tîm gofal pediatreg HIV wedi'i ariannu i sicrhau bod gan blant fynediad at ofal a chefnogaeth arbenigol.

Nid oedd pob ymatebwr yn cytuno y dylid ymestyn y cynllun peilot Texting for Testing. Cafwyd awgrym y gallai fod niwed posibl i gleifion sy'n derbyn y neges destun hon ac y gallai'r neges beri gofid iddynt.

Roedd darparu gwell cymorth gan gymheiriaid yn gam gweithredu pwysig a dylai fod ar gael nid yn unig i gleifion, ond i bartneriaid ac aelodau o deulu'r rhai sy'n byw gyda HIV hefyd.

Gallai lleoliadau addysgol (Addysg Uwch ac Addysg Bellach) ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu a chynyddu nifer y bobl sy'n cael prawf HIV.

Roedd awgrym y dylid sefydlu rhwydwaith clinigol cenedlaethol ar gyfer iechyd rhywiol a HIV. Heb rwydwaith sy'n cael ei arwain yn glinigol yn rhan o Weithrediaeth newydd y GIG, roedd risg wirioneddol y gallai hyn danseilio a llesteirio'r cynllun gweithredu HIV, oherwydd mae'n bosibl na fydd byrddau iechyd yn blaenoriaethu gweithredu'r cynllun.

Y dylai gwasanaethau iechyd rhywiol gynyddu mynediad cyfartal at gondomau a chyngror a gwybodaeth gysylltiedig.

Cwestiwn 3

Beth yw'r heriau a allai olygu na fydd yr ymrwymiad i ddileu trosglwyddiad HIV erbyn 2030 yn cael ei wireddu? A oes unrhyw heriau amlwg yn ymwneud ag unrhyw gamau penodol y teimlwch y dylid tynnu sylw atynt?

Dyma'r themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion:

Diffyg cyllideb – roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebion yn cyfeirio at y gyllideb a'r lleihad mewn gwasanaethau yn y maes iechyd rhywiol sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd pwysau ariannol. Mae'r cyllid ar gyfer rhai o'r camau sydd wedi'u rhestru yn mynd i fod yn allweddol i lwyddiant y Cynllun Gweithredu, yn enwedig y system rheoli achosion; wythnos brofi i gynnwys adnoddau i ennyn diddordeb y rhai sy'n cael prawf am y tro cyntaf; rhaglen cymorth gan gymheiriaid a pha mor bwysig yw'r ffaith ei fod yn diwallu'r angen fel y nodwyd yng ngwaith ymchwil Prifysgol Caerdydd.

Roedd cyllid realistig a pharhaus yn allweddol i lwyddiant y cynllun gweithredu. Roedd cyllid yn angenrheidiol i sefydlu Fast Track Cymru a sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth teg ledled Cymru.

Mae camau gweithredu allweddol angen amserlenni a therfynau amser er mwyn sicrhau ymrwymiad a chyflawni, yn enwedig yn achos y system rheoli achosion, darparu PrEP mewn cymunedau, a'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafwyd sawl sylw bod angen adlewyrchu anghenion plant, pobl ifanc a menywod beichiog yn y Cynllun.

Roedd angen i'r cynllun gydnabod yr heriau o ran ymgysylltu â grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaethau digonol a allai gynnwys rhai lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n byw mewn carchardai.

Cafwyd sylw bod GIG Cymru'n parhau i wynebu heriau dwys yn ystod y cyfnod o adfer ar ôl y pandemig COVID. Roedd heriau newydd yn dod i'r amlwg fel Brech M sy'n effeithio'n anghymesur ar ddynion sy'n cael rhyw â dynion (MSM) ac sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd rhywiol a chlefydau heintus. Golygai'r heriau cyfunol hyn efallai na fyddai'n bosibl blaenoriaethu'r holl gamau gweithredu a nodwyd mewn polisiau a fframweithiau cyfredol.

Roedd gan un ymatebwr bryderon am ddyfodol y gweithlu HIV ac iechyd rhywiol yng Nghymru ac awgrymodd fod angen cynllun wedi'i gostio ar gyfer y gweithlu a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant, recriwtio a chadw staff HIV arbenigol, gan gynnwys cymdeithion meddygol.

Cwestiwn 4

A oes unrhyw adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at gymorth neu wasanaethau ymhlith pethau eraill) na chyfeirir atynt yn ein Cynllun, ond a fydd yn angenrheidiol wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn?

Roedd sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

Mwy o hyfforddiant mewn gweithleoedd fel sesiynau gorfodol i staff am bobl sy'n byw gyda HIV.

Roedd arweinyddiaeth yn allweddol ar gyfer rhoi'r camau gweithredu ar waith yn llwyddiannus. Mae hyn wedi bod yn amlwg dros ben ar lefel genedlaethol gan ei fod wedi'i gynnwys ym maniffesto pob plaid, fodd bynnag mae'n rhaid efelychu hyn yn lleol. Mae angen i fyrddau iechyd ganfod rhywun sy'n gallu llywio'r gwaith a bod yn atebol i oruchwyliaeth leol a chenedlaethol. Mae angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gael eu cynrychioli ar y Grŵp Goruchwylio.

Roedd cymorth seicolegol arbenigol yn fwlch yr oedd angen mynd i'r afael ag ef yn y cynllun terfynol.

Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.

Nodwyd nifer o wahanol bwyntiau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

Roedd rhai yn cwestiynu a oedd modd cyrraedd y nodau a'r targedau a sut byddai llwyddiant yn cael ei fesur.

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r camau gweithredu yn y Cynllun ac yn mynegi balchder bod Cymru'n arwain yn y maes hwn.

Cafwyd sylwadau y dylid cryfhau'r Cynllun o safbwynt iechyd menywod, gan ddefnyddio cysylltiadau â'r tîm iechyd ehangach, gan gynnwys bydwreigiaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd eich barn yn bwysig wrth gyfrannu at ein Cynllun Gweithredu HIV i Gymru a chwblhau'r fersiwn derfynol ohono. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, boed drwy gyflwyno ymateb neu drwy gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu ar-lein a'r digwyddiad wyneb yn wyneb a hwyluswyd gan ein sefydliad partner.

Gan mai dogfen grynodedb yw hon, efallai nad yw'r holl bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y fersiwn derfynol o'r Cynllun. Mae pob ymateb wedi'i ystyried ac os nad yw'r materion a'r awgrymiadau'n wedi'u cynnwys, nid yw hynny'n golygu eu bod wedi'u diystyru; yn wir, bydd llawer yn cael eu hystyried gan Grŵp Goruchwylio'r Cynllun Gweithredu HIV.

O ganlyniad i'r adborth, datblygwyd pedwar cam gweithredu newydd, a chafodd adrannau a chamau gweithredu eraill eu cryfhau. Y camau gweithredu newydd yw:

- 1. I gryfhau'r sail dystiolaeth, bydd rhwydwaith o ymchwilwyr yn y byd academiaidd yng Nghymru, mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cael ei sefydlu ac yn cydlynu ymchwil gyfredol ac ymchwil y dyfodol ym maes HIV ac iechyd rhywiol.**
- 2. Mae disgwyl i'r holl fyrddau iechyd ddangos tystiolaeth bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw gyda HIV yn cael cymorth gan dimau amlddisgyblaethol a bod y broses o bontio i wasanaethau oedolion yn un ddi-dor iddynt.
Mae'n rhaid i fenywod beichiog sy'n HIV positif gael cefnogaeth gan dîm amlddisgyblaethol hefyd.**
- 3. Gan fod pobl â HIV bellach yn byw'n hirach, byddant, fel gyda phob poblogaeth sy'n heneiddio, yn datblygu cydafiacheddau. Mae'n hanfodol bod eu gofal yn cael ei gydlynu, gyd thîm amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd. Bydd angen i'r maes gofal cymdeithasol fod yn rhan o'r ddeialog lle y bo hynny'n briodol.**
- 4. Wrth i'r rhai sy'n byw gydag HIV heneiddio dros amser, mae'n bwysig eu bod yn derbyn gofal holistaidd a thosturiol heb unrhyw wahaniaethu, a bod pawb sy'n darparu gofal a chymorth yn cael eu cefnogi wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.**

Camau Nesaf

Rydym wedi defnyddio'r adborth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ddiweddarau'r Cynllun Gweithredu HIV i Gymru. Mae'r diwygiadau a grybwyllir uchod wedi'u hystyried a'u cytuno gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllun Gweithredu HIV, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chabinet Llywodraeth Cymru. Rydym wrthi'n sefydlu Grŵp Goruchwylio newydd ar gyfer Cynllun Gweithredu HIV a fydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu a gytunwyd yn y cynllun terfynol hwn.